Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

National Assembly for Wales
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

1 Mai 2020

Annwyl Jeremy

**Cydsyniad Llywodraeth Cymru i Reoliadau Rheoliad (EC) Rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Gobeithio eich bod yn cadw'n dda.

Mae wedi dod i sylw'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i **Reoliadau Rheoliad (EC) Rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020** gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU.

Gosodwyd y Rheoliadau hyn gerbron Senedd y DU ar 16 Mawrth 2020 ac fe'u gwneir o dan adran 8 o *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.* Fel offeryn gweithdrefn negyddol arfaethedig, mae'r rheoliadau wedi bod yn destun proses sifftio yn y ddau Dŷ yn Senedd y DU. Deallaf fod y cyfnod sifftio wedi dod i ben ar 28 Ebrill 2020, pan gytunodd y Pwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd a'r Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth y dylai'r offeryn ddilyn y weithdrefn negyddol.

O ystyried yr amgylchiadau anodd ar hyn o bryd, rydym yn ymwybodol o'r pwysau ychwanegol sy'n cael eu rhoi ar lywodraethau. Fodd bynnag, mae rheoliadau sy'n paratoi ar gyfer ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn bwysig. Yn yr un modd, rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Rheolau Sefydlog i'r Cynulliad Cenedlaethol. O dan Reol Sefydlog 30C, dylai'r Cynulliad fod wedi cael gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i'r Rheoliadau hyn dros fis yn ôl.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymchwilio i'r mater hwn a sicrhau bod yr hysbysiad sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30C yn cael ei roi gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl. Gofynnwn hefyd i chi sicrhau, lle y mae Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i offerynnau statudol perthnasol eraill gael eu gwneud, ac os y gwnaed hynny, fel y'i diffinnir yn Rheol Sefydlog 30C, y caiff y datganiadau ysgrifenedig priodol eu gosod gerbron y Cynulliad yn unol â gofynion y rheol sefydlog honno.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDCC@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddLJC@assembly.wales
0300 200 6565

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Y Cadeirydd
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English